| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **5 Gorffennaf 2010** |
| **Teitl :** | **Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon 2009/10** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |
| **Gweithredu :** | **Nodi er Gwybodaeth** |

**Cefndir**

1. Mae Ombwdsmon Gwasanaethay Cyhoeddus Cymru wedi cyhoeddi ei adroddiad blynyddol am y flwyddyn 2009 – 2010.

2. Yn ei gyflwyniad i'r adroddiad dywed yr Ombwdsmon:

*"Y cynnydd mawr arall a gafwyd [yn ogystal â nifer cwynion yn erbyn cyrff iechyd] oedd hwnnw yn nifer y cwynion am ymddygiad aelodau awdurdodau lleol, sydd wedi codi 24%. Mewn blwyddyn pan oedd ymddiriedaeth y cyhoedd mewn cynrychiolwyr etholedig yn thema gyson, rwyf yn pryderu am y duedd hon. Ymgymerwyd â gwaith i ddatblygu canllawiau ar gyfer y Cod Ymddygiad yn ystod y flwyddyn er mwyn eu cyhoeddi yn Ebrill 2010. Rwyf yn mawr obeithio y bydd cynghorwyr yn ystyried y cyngor a'r cyfarwyddyd a roddir ac y bydd nifer y cwynion yn y maes hwn yn gostwng yn y flwyddyn i ddod."*

3. Mae copi o'r rhannau hynny o'r adroddiad sy'n berthnasol i gwynion cod ymddygiad wedi ei gynnwys fel **Atodiad** i'r adroddiad hwn. Gellir gweld copi llawn o'r adroddiad ar wefan yr Ombwdsmon (www.ombudsman-wales.org.uk)

**Argymhelliad**

4. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r adroddiad.